# CYFARFOD ARBENNIG O GYNGOR SIR YNYS MÔN

## Cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 8 Chwefror 2011

| | |
|---|---|
| **PRESENNOL:** | Y Cynghorydd Selwyn Williams - Cadeirydd<br>Y Cynghorydd G.O Jones - Is-Gadeirydd<br><br>Y Cynghorwyr W.J.Chorlton E.G.Davies; Lewis Davies; R.Anthony Dew; C.Ll.Everett; K.Evans; R.Ll.Hughes; T.Ll.Hughes; W.I.Hughes;W.T.Hughes; K.P.Hughes; Aled M Jones; Eric Jones;H.Eifion Jones; O.Glyn Jones; Raymond Jones; R.Dylan Jones;R.Ll.Jones; T.H.Jones; C.McGregor; Rhian Medi; Bryan Owen; J.V.Owen; R.L.Owen; Bob Parry OBE; G.O. Parry MBE; Eric Roberts;G.W.Roberts, OBE;J. Arwel Roberts;P.S. Rogers; H.W.Thomas; E Schofield, Ieuan Williams; J.P. Williams. |
| **WRTH LAW:** | Rheolwr-gyfarwyddwr Interim<br>Cyfarwyddwr Corfforaethol (Cyllid)<br>Cyfarwyddwr Corfforaethol (Tai a Gwasanaethau Cymdeithasol)<br>Cyfarwyddwr Corfforaethol (Cynllunio a'r Amgylchedd)<br>Cyfarwyddwr Corfforaethol (Addysg a Hamdden)<br>Cyfarwyddwr Gwasanaethau Cyfreithiol / Swyddog Monitro<br>Pennaeth Gwasanaeth (Cynllunio a Gwarchod y Cyhoedd)<br>Pennaeth Gwasanaeth (Polisi)<br>Pennaeth Gwasanaeth (Tai)<br>Cyfreithiwr i'r Swyddog Monitro<br>Rheolwr Gwasanaethau Pwyllgor<br>Swyddog Cyfathrebu |
| **YMDDIHEURIADAU:** | Y Cynghorwyr K.Evans, D.R.Hughes, Ff.M.Hughes |

Agorwyd y cyfarfod gyda gweddi gan y Cynghorydd R.Ll.Jones.

Estynnwyd croeso cynnes i Mr. Alan Raymont, Prif Swyddog Gweithredol, Horizon Nuclear Power ac i'r cydweithwyr oedd gydag ef o Horizon Nuclear Power. Hefyd i'r Mri. Huw Lloyd Jones a John Roberts o Swyddfa Archwilio Cymru ac i aelodau'r Bwrdd Adfer oedd yn bresennol heddiw.

### 1.DATGANIAD O DDIDDORDEB

Cafwyd datganiad o ddiddordeb gan y Cynghorydd G.O.Jones yn Eitem 3 o'r cofnodion hyn. Fe arhosodd yn y cyfarfod ond ni chymerodd ran mewn unrhyw drafodaeth ar y mater.

### 2. DERBYN UNRHYW DDATGANIADAU GAN Y CADEIRYDD, YR ARWEINYDD, AELODAU'R PWYLLGOR GWAITH NEU BENNAETH Y GWASANAETH TALEDIG

Ar ran yr Aelodau a'r Swyddogion oedd yn bresennol, mynegodd y Cadeirydd ei gydymdeimlad llwyraf â'r Cynghorydd C.Ll.Everett ar farwolaeth ei dad ac i'r Cynghorydd Ff.M.Hughes a'i theulu ar farwolaeth ei chwaer dros y penwythnos.

Cydymdeimlodd y Cadeirydd hefyd ag unrhyw aelod neu aelod o staff oedd wedi cael profedigaeth.

Safodd yr Aelodau a'r Swyddogion mewn teyrnged ddistaw fel arwydd o barch.

**3. YNNI NIWCLEAR HORIZON - DIWEDDARIAD AR BROSIECT ADEILADU NEWYDD YN YR WYLFA**

Cyflwynwyd - Cyflwyniad gan Mr.Alan Raymont, Prif Swyddog Gweithredol, Ynni Niwclear Horizon (YNH).

Roedd YNH yn fenter ar  y cyd rhwng E.ON UK ac RWE npower i ddatblygu cyfanswm o tua 6,000MW o gapasiti niwclear carbon isel newydd erbyn 2025 ar draws ei safleoedd yn Wylfa a Sir Gaerloyw.  Roedd YNH yn gobeithio bod mewn sefyllfa i gyflwyno cais cynllunio ar gyfer Wylfa 'B' yn 2012. Byddai'r datblygiadau cysylltiol fyddai eu hangen ar gyfer y prosiect yn cael eu cynnwys yn yr ymgynghori ond byddent yn destun proses ganiatáu wahanol.  Byddai cais y Grid Cenedlaethol i wneud gwelliannau angenrheidiol hefyd yn destun cais ar wahân.  Byddai hyd at 3 adweithydd niwclear ar safle'r Wylfa gyda chynhyrchiant cyfunol o 3300MW.

Rhoddwyd manylion am y broses ymgynghori statudol y byddai angen ei chwblhau cyn cyflwyno Gorchymyn Caniatâd Datblygu (GCD). Byddai angen cynnal Asesiad Effaith Amgylcheddol gyda'r datblygiad fel rhan o'r broses GCD.

Roedd y Datganiad o Ymgynghori Cymunedol yn darparu ymrwymiad YNH i gynnal ymarfer ymgynghori cymunedol effeithiol yn unol â'r gofynion deddfwriaethol.  Roedd safbwyntiau a phrofiad y Cyngor hwn wedi'u hystyried wrth lunio'r cynigion ymgynghori oedd yn y ddogfen.

Rhoddwyd cyfle i'r Aelodau gymryd rhan mewn sesiwn holi ac ateb yn dilyn y cyflwyniad.

4. **ADRODDIAD GWELLIANT BLYNYDDOL GAN ARCHWILIWR CYFFREDINOL CYMRU - IONAWR 2011**

Cafwyd adroddiad llafar gan Mr. Huw Lloyd Jones, Swyddog Arweiniol Asesu Gwelliant, Swyddfa Archwilio Cymru ar yr Adroddiad Blynyddol.

Adroddwyd - Bod yr adroddiad hwn y cyntaf o'i fath, yn dilyn deddfwriaeth newydd fis Ebrill 2010, oedd yn rhoi dyletswydd ar Gynghorau i wneud trefniadau i wella eu gwasanaethau a'r ffordd y maent yn gweithio.

Prif neges yr adroddiad oedd bod y Cyngor wedi ymateb yn gadarnhaol i ganfyddiadau difrifol Adroddiad Llywodraethu 2009.  Fodd bynnag, roedd llawer o waith ar ôl i'w wneud er mwyn gwneud yn siwr na fyddai problemau'r gorffennol yn dod i'r amlwg unwaith y byddai'r ymyrryd drosodd, fel bod y Cyngor yn cadw ffocws strategol clir ar ddarparu gwelliant i ddinasyddion.

Nododd yr Archwilwyr nifer o faterion pwysig tra’n archwilio’r cyfrifon ac ni chafodd y cyfrifon eu cymeradwyo gan y Cyngor erbyn 30 Medi 2010, fel sy’n ofynnol yn y rheoliadau cyfrifo.

Roedd y Cyngor wedi cyhoeddi ei 34 amcanion gwella ar ei wefan yn gynnar fis Gorffennaf fel rhan o’i Gynllun Corfforaethol, a hynny yn gam arwyddocaol ymlaen gyda gwella tryloywder ei fwriadau a’i atebolrwydd dros ddarparu. Roedd pob un o’r amcanion yn ymwneud ag un o bum amcan strategol ond dim ond ychydig ohonynt oedd yn canolbwyntio’n benodol ar wella canlyniadau i ddinasyddion.

Roedd adolygiad gan Arolygiaeth Gofal a Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru wedi canfod bod gan y Cyngor drefniadau effeithiol ac ymrwymiad cryf i ddiogelu oedolion bregus. Roedd bwriad y Cyngor i gyfarfod ag anghenion tai lleol yn briodol ond heb fod wedi’i gefnogi gan ganlyniadau penodol i ddinasyddion na chynlluniau clir ar gyfer cyflawni’r canlyniadau hynny.

Roedd cyrraeddiadau addysgol yn uwch na’r cyfartaledd yng Nghymru ac yn dangos gwelliant yn y rhan fwyaf o’i agweddau. Roedd Arolygiad ar y Cyd gan Estyn a Swyddfa Archwilio Cymru fis Tachwedd 2009 wedi canfod bod yna nodweddion da a dim diffygion pwysig yng nghefnogaeth y Cyngor i wella ysgolion.

Roedd diogelwch a glanweithdra’r ardal yn cymharu’n dda gyda gweddill Cymru gyda gwasanaeth rheoli gwastraff y Cyngor yn perfformio’n dda iawn.

Cafwyd cyfle wedyn am sesiwn holi ac ateb.

**Eitemau a ohiriwyd o gyfarfod 9 Rhagfyr, 2010**

## 5. POLISI CYNLLUNIO INTERIM - SAFLEOEDD MAWR

Adroddwyd bod y Pwyllgor Gwaith yn ei gyfarfod ar 30 Tachwedd 2010 wedi penderfynu argymell i’r Cyngor Sir fel a ganlyn:-

"(i) *Cymeradwyo'r Polisi Tai Dros Dro ar gyfer Safleoedd Mawr i'w fabwysiadu fel Polisi Dros Dro hyd nes y bydd y CDLl wedi ei fabwysiadu yn amodol ar y newidiadau a gyflwynwyd yn y cyfarfod ar 9 Rhagfyr 2010 ac sydd ynghlwm yma.*

*(ii) Rhoi awdurdod i'r Pennaeth Gwasanaeth (mewn ymgynghoriad gyda'r Aelod(au) Portffolio perthnasol lle bo'n briodol) i wneud mân-newidiadau i'w gynnwys wedi i'r trafodaethau sy'n parhau ddod i ben, gan gynnwys y trafodaethau gydag Enfusion".*

**PENDERFYNWYD cymeradwyo argymhellion y Pwyllgor Gwaith fel uchod.**

## 6. Y GRWP LLYWIO ADFERIAD

Dywedodd y Cynghorydd Gwilym O. Jones, Cadeirydd y Grwp Llywio Adferiad (GLlA) bod y Cyngor ar 14 Medi, 2010 wedi cymeradwyo ei Raglen Adferiad a sefydlu GLlA i fod â throsolwg o’r cynnydd ac i adrodd yn ôl i bob cyfarfod cyffredinol o’r Cyngor hyd nes y byddai Mesurau Ymyrryd y Gweinidog wedi dod i ben.

Roedd y GLlA wedi cyfarfod ar dri achlysur ac wedi nodi naw o faterion, ac 'roedd cynnydd boddhaol yng nghyswllt y rhain yn greiddiol i gyflawni adferiad tymor hir fyddai'n gynaliadwy. Er mwyn mynd i'r afael â'r materion hyn, fe gytunodd y GLlA y byddai'n gwahodd cyflwyniadau gan ddeilyddion portffolio perthnasol ar bob maes yn ei dro, fel y gellid asesu'r man cychwyn, y cynnydd hyd yma, datblygiadau arfaethedig yn y dyfodol, yr amserlen ac adnoddau gyda golwg ar sefydlu disgwyliadau / gofynion y GLlA ar gyfer adrodd yn ôl ar hynny a monitro yn y dyfodol. Byddai pwyslais arbennig yn cael ei roi ar unrhyw elfennau fyddai i'w gweld fel pe baent yn cloffi neu'n methu a symud ymlaen ar gyflymder rhesymol a byddid yn gofyn am fwy o wybodaeth ar unrhyw faes arbennig fyddai'n achosi pryder fel y gellid adrodd yn ôl arno i'r Cyngor.

*(Crybwyllodd y Cynghorydd Rhian Medi bod cyfeiriad o dan Eitem 5 o gofnodion Cymraeg y* GLlA *a gynhaliwyd ar 20 Ionawr 2011 at Medrwn Môn. Dylid newid hwn i ddarllen Menter Môn).*

**PENDERFYNWYD**

- **Derbyn canfyddiadau presennol y Grwp Llywio Adferiad, sef, bod cynnydd yn erbyn y Rhaglen Adferiad yn foddhaol yn gyffredinol a;**

- **Cymeradwyo'r broses a'r egwyddorion a fabwysiadwyd gan y GLlA i barhau i fonitro datblygiadau yn y dyfodol yn erbyn y meysydd allweddol a nodwyd a'r Rhaglen Adfer ehangach.**

**7.ADOLYGU'R POLISI TRWYDDEDU**

Cafwyd adroddiad gan y Deilydd Portffolio - Bod angen i'r Awdurdod hwn adolygu ei Bolisi Trwyddedu bob tair blynedd o dan delerau Deddf Trwyddedu 2003. Roedd yr adroddiad hwn yn crynhoi'r broses ymgynghori. Oherwydd bod lle i gredu bod y Polisi wedi gweithio'n dda ac nad oedd wedi wynebu unrhyw heriau, prin oedd yr ymatebion a'r newidiadau.

**PENDERFYNWYD cymeradwyo cynnwys yr adroddiad a mabwysiadu'r Polisi Trwyddedu diwygiedig.**

**8.MABWYSIADU RHAGLEN DATBLYGU AELODAU AM Y CYFNOD 2010-2012**

Cyflwynwyd - Adroddiad y Cynghorydd J. Penri Williams, Cadeirydd y Gweithgor Datblygu Aelodau / y Pencampwr Datblygu Aelodau, yn ceisio cael cefnogaeth y Cyngor yng nghyswllt cynllun hyfforddiant drafft ar gyfer datblygu aelodau am y cyfnod Tachwedd, 2010 i Mawrth 2012.

Y bwriad oedd i'r cynllun wneud camau cadarnhaol pellach tuag at gefnogi Aelodau yn eu rolau, gwella safonau, datblygu arferion da ac ennill Siartr Datblygu Aelodau.

**PENDERFYNWYD bod y Cyngor yn mabwysiadu ac yn cefnogi'r cynllun hyfforddi y cyfeiriwyd ato yn Atodiad 1 yr adroddiad.**

9. **GWASANAETH TÂN AC ACHUB GOGLEDD CYMRU**

Cyflwynwyd - adroddiad llafar gan y Cynghorydd J. V. Owen, un o gynrychiolwyr y Cyngor ar Awdurdod Tân ac Achub Gogledd Cymru, ar gyfarfodydd a gynhaliwyd gan yr Awdurdod hwnnw rhwng 1 Medi 2010 a 30 Tachwedd 2010.

Adroddwyd - Bod yr Awdurdod wedi penderfynu ar gyllideb sefydlog o £32m, oedd mewn gwirionedd yn golygu toriadau o £2.4m. Byddai'r Awdurdod yn gweithredu'n gyfrifol gyda'r arian a dderbyniwyd ac yn edrych i gadw i lawr i'r eithaf unrhyw doriadau mewn staff.

**PENDERFYNWYD nodi'r wybodaeth.**

10. **DIRPRWYO GAN YR ARWEINYDD**

Cyflwynwyd er gwybodaeth - Adroddiad gan y Rheolwr-gyfarwyddwr Dros Dro yn nodi unrhyw newidiadau i'r cynllun dirprwyo mewn perthynas â swyddogaethau'r Pwyllgor Gwaith a wnaed gan yr Arweinydd ers y Cyfarfod Cyffredinol diwethaf (cyfeirir at hyn yn Rheol 4.4.1.4 y Cyfansoddiad - Rheolau Gweithdrefn y Pwyllgor Gwaith).

**PENDERFYNWYD nodi'r wybodaeth.**

11. **CYNIGION A DDERBYNIWYD YN UNOL Â RHEOL 4.1.2.2.12 Y CYFANSODDIAD**

(a) Cyflwynwyd - Y Rhybudd o Gynigiad canlynol gan y Cynghorydd R. G. Parry OBE:-

*"Y mae Cyngor Sir Ynys Môn yn apelio ar Fwrdd Ymddiriedolaeth Betsi Cadwaladr yn gyntaf, i gadw Ward Alaw yn Ysbyty Gwynedd ar agor fel Ward ar gyfer cleifion yn dioddef o Gancr. Yn ail, ystyried yn ddwys ailagor adran mân-ddamweiniau Ysbyty Penrhos, Caergybi yn ystod oriau 5.00 i 10.00 yr hwyr."*

**PENDERFYNWYD bod awdurdod yn cael ei roddi i Arweinydd y Cyngor i ysgrifennu i Fwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr yn cefnogi'r cynnig a roddwyd gerbron gan y Dirprwy Arweinydd.**

(b) Cyflwynwyd - Y Rhybudd o Gynigiad canlynol gan y Cynghorydd G. W. Roberts OBE:-

"*Bod y Cyngor hwn yn mabwysiadu polisi o dalu lwfans teithio ail ddosbarth yn unig ar gyfer aelodau'r Cyngor ac yn rhoi'r gorau i dalu lwfans teithio dosbarth cyntaf.*

*Bod y Cyngor hwn yn rhewi lwfans teithio i aelodau rhwng eu cartrefi a swyddfeydd y Cyngor yn Llangefni pan fyddant yn dod i gyfarfodydd Cyngor Sir Ynys Môn oherwydd yr hinsawdd economaidd gyfredol."*

(b)(ii) Cyflwynwyd - Y newid canlynol yn y Rhybudd o Gynigiad uchod gan y Cynghorydd G.W. Roberts,OBE:-

*"Diwygio'r Cynllun Lwfansau Aelodau yn y Cyfansoddiad, i ddechrau o 9 Chwefror, 2011, fel a ganlyn:-*

*(a) Yng Nghymal 6.5.1 ar ôl "tren" rhoi i mewn "Dosbarth Safonol"*

*(b)Yng Nghymal 6.5.4 (sy'n rhestru pwrpasau na thelir lwfansau teithio amdanynt), ychwanegu pwynt bwled ychwanegol,"siwrneiau o'r cartref i Llangefni er mwyn mynychu cyfarfodydd o'r Cyngor Sir llawn."*

Cynigiwyd gwelliant gan y Deilydd Portffolio Cyllid y dylid gadael yr ail gymal ar y bwrdd hyd nes ceid canlyniad y trafodaethau traws bleidiol sydd ar hyn o bryd yn cael eu cynnal ar lwfansau aelodau ac y bwriedir adrodd yn ôl arnynt ymhellach yn y cyfarfod nesaf o'r Cyngor. Fe eiliwyd y gwelliant ond ni chafodd ei gario.

Cafwyd trafodaeth ynglyn â gwelliant a roddwyd ymlaen gan y Cynghorydd B. Durkin na ddylid talu unrhyw lwfansau teithio i aelodau sy'n mynychu cyfarfodydd a elwir gan y Cyngor yn Llangefni. Fe eiliwyd y gwelliant ond ni chafodd ei gario.

**PENDERFYNWYD**

- **Derbyn y newid i'r Rhybudd o Gynigiad a roddwyd gerbron gan y Cynghorydd G.W. Roberts, OBE, fel y cyfeirir at hynny yn 11(b)(ii) uchod.**

- **Bod y cynnig cyntaf, fel y cafodd ei newid, yn cael ei gario.**

**Eitemau Newydd**

12. **ADRODDIAD BLYNYDDOL PANEL ANNIBYNNOL CYMRU AR GYDNABYDDIAETH ARIANNOL - RHAGFYR 2010**

Cyflwynwyd - Adroddiad y Cyfarwyddwr Corfforaethol (Cyllid) ar adroddiad blynyddol Panel Annibynnol Cymru ar Gydnabyddiaeth Ariannol a gyhoeddwyd fis Rhagfyr 2010 yng nghyswllt graddfeydd uchaf y lwfansau i aelodau yn 2011-12 ac ar lwfans arfaethedig i'w dalu ar gyfer swydd Arweinydd Cysgodol.

Roedd y Cynghorwyr Bryan Owen a G.W. Roberts,OBE, yn dymuno iddo gael ei nodi yn y cofnodion nad oedd yr Wrthblaid erioed wedi gofyn na gwneud cais am daliad i'r Arweinydd Cysgodol.

Mewn ymateb dywedodd y Deilydd Portffolio Cyllid bod lwfans ar gyfer Arweinydd Cysgodol wedi'i gynnwys fel rhan o adroddiad blynyddol Panel Annibynnol Cymru ar Gydnabyddiaeth Ariannol i'w ystyried gan Gynghorau unigol.

**PENDERFYNWYD**

- **Bod Cyllideb y Cyngor yn cael ei pharatoi ar y sail na fydd unrhyw newid i gyfraddau lwfansau'r Aelodau yn 2011-12;**

- **Na fydd unrhyw lwfans yn cael ei dalu ar gyfer swydd yr Arweinydd Cysgodol.**

## 13. CYDBWYSEDD GWLEIDYDDOL

Cyflwynwyd - Adroddiad a baratowyd ar y cyd gan Gyfarwyddwr y Gwasanaethau Cyfreithiol / Swyddog Monitro a'r Cyfarwyddwr Corfforaethol (Cyllid) yn dilyn y newidiadau i'r Grwpiau Gwleidyddol ym mis Ionawr.

**PENDERFYNWYD**

- **Bod y Cyngor yn nodi'r trefniadau newydd priodol ar gyfer cydbwysedd gwleidyddol a'r nifer o seddi y mae modd eu rhoi i bob Grwp dan Ddeddf Llywodraeth Leol a Thai 1989, a'r nifer o seddi a roddir drwy ddefod ac arfer i'r Aelodau Digyswllt;**

- **Cytuno ar y niferoedd cyflawn o seddi a ddyrennir i'r Aelodau Digyswllt a bod Cadeirydd y Cyngor yn penderfynu ar ddyraniad pob un o'r seddi i aelodau unigol digyswllt (trwy gytundeb ble mae'n bosib);**

- **Gofyn i Arweinyddion y Grwpiau gyflwyno rhestr o enwau eu cynrychiolwyr ar bob Pwyllgor i'r Rheolwr Gwasanaeth Pwyllgorau erbyn 10 y bore ar ddydd Mercher 9 Chwefror 2011 ar yr hwyraf a bod Cadeirydd y Cyngor Sir yn cyflwyno enwau'r aelodau digyswllt erbyn hanner dydd ar ddydd Mawrth 15 Chwefror 2011 ar yr hwyraf.**

## 14. CWESTIYNAU A DDERBYNIWYD YN UNOL Â RHEOL 4.1.2.2.14 Y CYFANSODDIAD

Gofynnodd y Cynghorydd T.Ll. Hughes y cwestiwn canlynol i'r Deilydd Portffolio ar gyfer Priffyrdd, Trafnidiaeth ac Arforol:-

*"Yn wyneb y tywydd mawr yn ddiweddar, a fydd Adran Briffyrdd Cyngor Sir Ynys Môn yn adolygu polisi graeanu'r Cyngor Sir ar gyfer y dyfodol?"*

Mewn ymateb, dywedodd y Deilydd Portffolio y bydd adolygiad yn cael ei gynnal ar y polisi graeanu mewn ymateb i'r gaeafau caled yr ydym wedi'u cael yn ddiweddar. Bydd y lle storio halen presennol sydd yn dal digon o halen am aeaf a hanner o dywydd drwg yn cael ei ymestyn i 555,000 tunnell ac fe ddylai hynny ddarparu stoc digonol ar gyfer dau aeaf drwg. Roedd bwriad hefyd i gydweithredu'n agos gyda Chynghorau Tref a Chymuned er mwyn gweld beth oedd eu anghenion. Roedd yr Awdurdod hwn yn graeanu 37% o'i rwydwaith priffyrdd ar hyn o bryd ac roedd hynny'n sylweddol fwy nag ardaloedd gwledig eraill yng Nghymru, lle roedd y cyfartaledd yn 27%.

Fel cwestiwn atodol, roedd y Cynghorydd T.Ll. Hughes am longyfarch yr Adran am ei gwaith ond roedd am gyfeirio at y polisi oedd yn dweud y dylai blaenoriaeth gael ei roddi i waith graeanu ffyrdd oedd yn rhoi mynediad i ysgolion a soniodd am y diffyg graeanu o flaen Ysgol Thomas Ellis ac Ysgol y Santes Fair, Caergybi.

Dywedodd y Deilydd Portffolio mewn ymateb y byddai'r polisi graeanu yn cael ei adolygu ac y byddai'n cyfleu pryderon y Cynghorydd Hughes i'r Adran.

15. **YMYRRAETH**

Adroddwyd er gwybodaeth gan y Rheolwr-gyfarwyddwr Dros Dro - Bod y Gweinidog wedi gofyn i'r Bwrdd Adfer edrych ar statws cyfredol yr ymyrraeth yng Nghyngor Sir Ynys Môn a rhoi cyngor iddo yng nghyswllt hynny.

**Daeth y cyfarfod i ben am 5.05 p.m.**

**Y CYNGHORYDD SELWYN WILLIAMS**
**CADEIRYDD**